



Canllaw

Sut i wneud cais am help i dalu ffioedd

Efallai na fydd yn rhaid i chi dalu ffi llys neu dribiwnlys, neu efallai y cewch chi ostyngiad. Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i ategu'r ffurflen gais bapur. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gefnogi ceisiadau ar-lein, er y gellir gofyn cwestiynau mewn trefn wahanol.

Cynnwys

Pwy sy'n gallu cael help i dalu ffioedd?	Tudalen 3
Eich manylion personol (cwestiwn 1)	Tudalen 4
Eich statws (cwestiwn 2)	Tudalen 5
Ynglŷn a'ch cais (cwestiwn 3)	Tudalen 6
Dod o hyd i rif yr achos, hawliad neu 'hysbysiad talu' (cwestiwn 4)	Tudalen 6
Talu ffi am achos profiant (cwestiwn 5)	Tudalen 6
Gwneud cais am ad-daliad os ydych wedi talu ffi yn barod (cwestiwn 6)	Tudalen 7
Eich cynilion a buddsoddiadau (cwestiynau 7 ac 8)	Tudalen 7
Budd-daliadau (cwestiwn 9)	Tudalen 10
Plant sy'n byw gyda chi, neu'n cael eu cynnal yn ariannol gennych (cwestiwn 10 ac 11)	Tudalen 10
Cyfanswm eich incwm misol (cwestiwn 12)	Tudalen 11
Sut y mae'ch incwm yn effeithio ar eich gallu i gael help i dalu'ch ffi	Tudalen 15
Darparu tystiolaeth o'ch incwm	Tudalen 16
Llofnodi'r ffurflen (cwestiwn 14)	Tudalen 17
Hawliadau neu geisiadau gan nifer o bobl	Tudalen 17
Ble i anfon eich cais	Tudalen 18
Beth fydd yn digwydd nesaf	Tudalen 19
Sut i apelio	Tudalen 19
Os ydych yn debygol o brofi caledi eithriadol	Tudalen 19
Beth i'w wneud mewn argyfwng	Tudalen 21
Cysylltiadau defnyddiol	Tudalen 21

Pwy sy'n gallu cael help i dalu ffioedd?

Efallai na fydd yn rhaid i chi dalu ffi, neu efallai y cewch chi ostyngiad os:

- nad oes gennych unrhyw gynilion neu fuddsoddiadau, neu dim ond symiau bach ohonynt
- a'ch bod yn cael budd-daliadau penodol
- neu ar incwm isel

Hefyd, gallwch wneud cais ar-lein am help i dalu ffioedd llys a thribiwnlys yn www.gov.uk/help-with-court-fees

Mae cael help i dalu ffioedd yn cael ei alw'n 'dileu ffi' weithiau.

Fel arfer dim ond unigolion sy'n gallu gwneud cais am help i dalu ffioedd. Mae rhai eithriadau, er enghraifft:

- Unig fasnachwyr (pobl sy'n rhedeg eu busnes eu hunain)
- Elusennau a sefydliadau di-elw sy'n dod ag achos i Oruchaf Lys y DU
- Cwmnïau sy'n gwneud cais i awdurdodaeth Gamblo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (GRC) – gan ddefnyddio canllaw ac arweiniad ar wahân.
- Gall rhai nad ydynt yn wladolion y DU wneud cais am help i dalu ffioedd os yw llys neu dribiwnlys yn y DU yn delio â'r achos neu'r hawliad

Yn y rhan fwyaf o achosion, gall gwladolion o'r tu allan i'r DU wneud cais am help i dalu ffioedd os mai Llys neu Dribiwnlys yn y DU sy'n delio â'r achos neu'r hawliad. Fodd bynnag, yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches), ni fyddwch yn gymwys i gael help i dalu ffioedd os nad ydych yn y DU ar yr adeg y byddwch yn dechrau eich apêl.

Ni allwch gael help i dalu ffioedd mewn perthynas â ffioedd sy'n daladwy am geisiadau i gael copiau o ddogfennau, cael mwy nac un copi, na chwiliadau.

Os nad ydych yn gymwys i gael help i dalu ffioedd am unrhyw reswm ac os ydych yn debygol o brofi caledi eithriadol, efallai y byddwch yn gymwys am gael dileu rywfaint o'r ffi neu ddileu' ffi lawn o dan bŵer eithriadol yr Arglwydd Ganghellor. Gweler Tudalen 19.

³ **Eich manylion personol** (cwestiwn 1)

Mae angen i'r llys neu dribiwnlys gael manylion megis eich enw, dyddiad geni a Rhif Yswiriant Gwladol i'ch adnabod chi, yn ogystal â'ch achos neu hawliad.

Fel arfer bydd eich rhif Yswiriant Gwladol ar lythyrau oddi wrth y Ganolfan Byd Gwaith, ar eich slip cyflog, neu P60. Os na allwch ddod o hyd iddo, ewch i: gov.uk/lost-national-insurance-number

Efallai bod gennych gyfeirnod y Swyddfa Gartref os ydych yn destun rheolaeth fewnfudo. Fe welwch gyfeirnod y Swyddfa Gartref ar unrhyw ohebiaeth a gawsoch gan y Swyddfa Gartref.

Mae angen i'r rhan fwyaf o bobl wneud cais eu hunain am help i dalu ffioedd. Fodd bynnag, os yw'r ceisydd yn blentyn, yn rhywun nad oes ganddo alluded meddyliol, neu yn ystad rhwun sydd wedi marw; yna gall rhiant, cyfaill cyfreitha, neu weinyddwr/ysgutor wneud cais ar eu rhan. Bydd angen i'r manylion ariannol fod yn rhai'r sawl sy'n barti i'r achos cyfreithiol, ond mae angen i'r cyfeiriad a'r llofnod fod gan drydydd parti.

Eich statws (cwestiwn 2)

Os ydych mewn cwpl, bydd sefyllfa ariannol eich partner yn cael ei hystyried a rhaid i chi roi manylion am gynilion ac incwm eich partner.



Dewiswch 'yn briod neu'n byw gyda rhywun ac yn rhannu incwm' os ydych:

- yn briod
- yn bartneriaid sifil
- yn cyd-fyw fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- yn byw yn yr un cyfeiriad ac yn rhannu incwm
- yn gwpl sydd wedi'i orfodi i fyw ar wahân, ee lle mae un neu ddau ohonoch yn y Lluoedd Arfog, yn y carchar neu'n byw mewn gofal preswyl



Dewiswch 'sengl' os ydych yn dibynnu ar eich incwm eich hun neu os yw'ch achos yn ymwneud â'ch partner, er enghraifft:

- ysgariad, diddymu neu ddirymu priodas (oni bai'ch bod wedi ailbriodi neu'n byw gyda phartner newydd)
- cydnabod rhyw
- trais domestig

Ynglŷn â'ch cais (cwestiwn 3)

Mae'n rhaid gwneud cais am help i dalu ffioedd ar bob cam o'ch achos ble fydd gofyn i dalu ffi, gan gynnwys efallai pan fydd yn rhaid talu ffi gwrandawriad.

Bydd angen i chi roi rhif y ffurflen llys neu dribiwnlys rydych yn ei defnyddio.

Fel arfer bydd rhif y ffurflen ar waelod y ffurflen.

Os nad oes gennych rif ffurflen, er enghraifft am eich bod yn gwneud cais am help i dalu ffi gwrandawriad ar gyfer hawliadau bychain neu ysgariad drwy ein system, yna rhowch 'ffi gwrandawriad ar gyfer hawliadau bychain' neu 'ysgariad ar-lin' yn ateb i'r cwestiwn hwn.

Os nad ydych yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwn, gadewch y blwch yn wag.

Dod o hyd i rif yr achos, hawliad neu 'hysbysiad talu' (cwestiwn 4)

Mae'r llys neu dribiwnlys yn creu cyfeirnod ar gyfer pob achos. Mae hwn yn cael ei alw weithiau'n rhif hawliad, rhif achos neu rif 'hysbysiad talu'.

Os yw'ch achos yn mynd ymlaen ar hyn o bryd, bydd y cyfeirnod ar lythyrau oddi wrth y llys neu dribiwnlys.

Os nad oes gennych gyfeirnod (efallai am nad yw'ch achos wedi dechrau) gadewch y blwch hwn yn wag.

Talu ffi am achos profiant (cwestiwn 5)

Bydd hyn yn digwydd pan ydych yn gwneud cais am yr hawl i ddelio ag adeiladau, arian ac eiddo ('ystad') rhywun sydd wedi marw yng Nghymru neu Loegr.

Dim ond ar gyfer y ffi am ymgeisio am 'grant cynrychioli' a 'cyflwyno cafeat' y gallwch gael help i dalu ffioedd.

Mae rhagor o wybodaeth am brofiant yn: gov.uk/wills-probate-inheritance

Gwneud cais am ad-daliad os ydych wedi talu ffi'n barod (cwestiwn 6)

Gallwch wneud cais i gael rhan neu'r cyfan o'ch arian yn ôl os ydych wedi talu ffi yn y 3 mis diwethaf. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i chi fod yn gymwys pan oeddech wedi talu'r ffi.

Os ydych yn gwneud cais am ad-daliad, atebwch gwestiynau 7 i 12 drwy roi gwybodaeth am eich amgylchiadau pan oeddech wedi talu'r ffi.

Dylech hefyd gynnwys 'prawf o dalu' y ffi gyda'ch cais, ee derbynneb neu ddatganiad banc.

Ni fydd ffi ar gyfer apêl a gyflwynwyd yn y DU i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (y Siambr Mewnfudo a Lloches) ond yn gymwys am ad-daliad os talwyd y ffi ar neu ar ôl 20 Ebrill 2020

Eich cynilion a buddsoddiadau (cwestiynau 7 ac 8)

Dechreuwch drwy adio'ch cynilion. **Os oes partner gennych, cofiwch gynnwys cynilion eich partner hefyd.** (Gweler yr wybodaeth am 'Eich statws' ar dudalen 5 os nad ydych yn sicr a ddylech gynnwys cynilion eich partner).



Beth i'w gynnwys mewn cynilion a buddsoddiadau:

- arian mewn ISA ac unrhyw gyfrif cynilo arall
- cyfrifon cynilo ar y cyd rydych yn eu rhannu â'ch partner
- bondiau cyfradd sefydlog neu fondiau buddsoddi
- unrhyw gyfandaliad (ee tâl am golli swydd)
- stociau a chyfrannau
- cronfeydd ymddiriedolaeth (neu unrhyw fath arall o gronfa)
- ail gartrefi
- unrhyw arian neu eiddo y tu allan i'r DU



Peidiwch â chynnwys y canlynol yng nghyfanswm eich cynilion:

- cyflog neu fudd-daliadau
- cyfrifon cynilo ar y cyd rydych yn eu rhannu â'ch partner os yw'ch achos yn ymwneud ag ysgariad neu gydnabod rhyw (gweler rhagor am 'Eich statws' ar dudalen 5)
- pensiynau personol
- gwerth cyfalaf busnesau pobl hunangyflogedig
- gwerth unrhyw gerbyd a fyddai'n eich gadael chi neu'ch partner heb drefniadaeth pe byddai'n cael ei werthu
- bencythiadau
- dyfarndaliadau am ddiswyddo annheg
- arian o'r cynllun digolledu am anafiadau troseddol
- dyfarndaliadau am esgeuluster meddygol neu anaf personol
- unrhyw ddigollediad dan gynllun statudol mewn perthynas â Mesothelioma

Os nad oes gennych gynilion o gwbl, neu os yw'ch cynilion yn llai na £3,000, byddwch yn gallu cael help i dalu'ch ffi, ar yr amod eich bod yn derbyn budd-daliadau penodol (gweler tudalen 10) neu ar incwm isel

(gweler tudalen 11).

Os yw'ch cynilion yn fwy na £3,000, gweler y tabl isod.

Os yw'ch ffi llys neu dribiwnlys:	Rhaid i'ch cynilion a buddsoddiadau fod yn llai na'r swm hwn:
Hyd at £1,000	£3,000
Rhwng £1,001 – £1,335	£4,000
Rhwng £1,336 – £1,665	£5,000
Rhwng £1,666 – £2,000	£6,000
Rhwng £2,001 – £2,330	£7,000
Rhwng £2,331 – £4,000	£8,000
Rhwng £4,001 – £5,000	£10,000
Rhwng £5,001 – £6,000	£12,000
Rhwng £6,001 – £7,000	£14,000
£7,001 neu fwy	£16,000

Mae'r ffioedd yn ddibynnol ar eich achos neu hawliad. I ganfod beth allwch ddisgwyl ei dalu mewn llys neu dribiwnlys, ewch i: gov.uk/court-fees-what-they-are

Os ydych chi neu'ch partner yn 61 oed neu'n hŷn a bod gennych gynilion o £16,000 neu lai, mae'n bosibl y gallwch gael help i dalu'ch ffi.

Os oes gennych swm sy'n fwy na hyn, mae'n annhebygol y gallwch gael help ariannol.

Budd-daliadau (cwestiwn 9)

Gallwch gael help i dalu ffioedd os nad oes gennych gynilion o gwbl, neu os yw swm eich cynilion yn fach (gweler tudalen 7) a'ch bod yn derbyn un o'r budd-daliadau hyn:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm (JSA)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm (ESA)
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Cynhwysol (a'ch bod yn ennill llai na £6,000 y flwyddyn)
- Credyd Pensiwn (gyda Chredyd Gwarant)
- Cymorth Cyfreithiol yr Alban (Hawliadau Sifil)

Byddwn yn cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gadarnhau eich bod yn cael (neu wedi cael) un o'r budd-daliadau hyn. Gallem gysylltu â chi hefyd os bydd angen i ni weld tystiolaeth ychwanegol.

Os ydych mewn cwpl, ac yn cael budd-dal ar y cyd yn seiliedig ar brawf modd, rhowch dystiolaeth pan fyddwch yn anfon eich cais i mewn.

Os ydych newydd ddechrau derbyn un o'r budd-daliadau hyn

(er enghraifft, yn y dyddiau diwethaf), mae'n bosibl na fydd ein staff yn gallu cadarnhau'ch bod yn gymwys drwy gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Os felly, dylech ddarparu llythyr gan y Ganolfan Byd Gwaith.

Plant sy'n byw gyda chi, neu'n cael eu cynnal yn ariannol gennych (cwestiwn 10 ac 11)

Mae angen i chi roi manylion am unrhyw blant rydych yn eu cynnal yn ariannol neu eich partner.

Mae hyn yn cynnwys plant sydd:

- o dan 16 oed ac yn byw gartref gyda chi
- rhwng 16 – 19 oed, yn sengl, yn byw gartref gyda chi ac mewn addysg amser llawn (heb gynnwys astudio am radd neu gymhwyster addysg uwch arall). Gweler: gov.uk/child-tax-credit-when-child-reaches-16
- plentyn nad yw'n byw gyda chi, ond eich bod chi (neu'ch partner) yn gwneud taliadau cynhaliaeth rheolaidd ar ei gyfer

Cyfanswm eich incwm misol (cwestiwn 12)

Ysgrifennwch y swm o arian rydych yn ei gael bob mis

Beth i'w gynnwys mewn incwm:

- cyflogau gros, cyn bod unrhyw daliadau treth neu Yswiriant Gwladol wedi cael eu didynnu
- rhai budd-daliadau (gweler y rhestr ar dudalennau 13–14 i weld pa fudd-daliadau na ddylech eu cynnwys)
- pensiynau (pensiwn y wladwriaeth, pensiwn gwaith neu breifat heb gredyd gwarant)
- rhent oddi wrth rywun sy'n byw gyda chi ac mewn adeiladau eraill sy'n eiddo i chi
- Taliadau gan berthnasau neu ffrindiau (h.y. nid bencythiadau na rhoddion untro)
- taliadau cynhaliaeth, ee gan gyn-briod
- incwm o werthu nwyddau'n gyhoeddus neu'n breifat, gan gynnwys dros y rhynggrwyd

Ble i gael gwybodaeth am eich incwm

Cyflog	<p>Bydd eich cyfanswm misol (cyn talu treth ac yswiriant gwladol) ar eich slip cyflog os ydych yn cael un.</p> <p>Os ydych yn cael eich talu'n wythnosol, lluoswch eich tâl wythnosol â 52, a'i rannu wedyn â 12. Bydd hyn yn rhoi cyfanswm misol i chi.</p> <p>Os yw eich incwm yn amrywio o fis i fis, yna cyfrifwch eich incwm misol ar gyfartaledd yn seiliedig ar eich incwm dros y tri mis diwethaf.</p> <p>Os ydych yn hunangyflogedig ac yn ennill gwahanol symiau bob mis, rhannwch eich incwm blynyddol gros o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf â 12. Dyma'r ffigur i'w roi am eich cyfanswm misol.</p>
---------------	--

Budd-dal Plant, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant	Fel arfer bydd y swm misol ar dudalen olaf y llythyr oddi wrth Cyllid a Thollau EM (HMRC) neu ar unrhyw gyfrif ar-lein sy'n cadarnhau'ch bod yn derbyn Budd-dal Plant, Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant. Darparwch sgrin lun os yw'r dystiolaeth ar-lein.
Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Gyfraniadau (JSA), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau (ESA), a Chredyd Cynhwysol	Fel arfer bydd y swm misol yn y llythyr oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu ar eich cyfrif ar-lein sy'n cadarnhau'ch bod yn derbyn y budd-dal. Darparwch sgrin lun os yw'r dystiolaeth ar-lein. Dim ond os ydych yn ennill mwy na £6,000 y flwyddyn y dylech gynnwys Credyd Cynhwysol yn eich incwm.
Pensiwn	Bydd eich swm pensiwn misol ar eich datganiad pensiwn.
Datganiad Incwm a Gwariant Carcharor	Bydd swm eich incwm misol ar eich Datganiad Incwm a Gwariant Carcharor os ydych yn garcharor.

Cynnwys incwm eich partner

Os oes partner gennych chi, cofiwch gynnwys unrhyw arian mae'ch partner yn ei gael hefyd. Gweler yr wybodaeth am 'Eich statws' ar dudalen 5 os nad ydych yn sicr a ddylech gynnwys incwm eich partner.

Incwm arall

Os ydych yn cael arian o rywle arall yn rheolaidd (nad yw'n un o'r budd-daliadau sydd wedi'u rhestru uchod neu yng nghwestiwn 9), gallwch ei gofnodi yn y rhes olaf yn y tabl am eich incwm, lle mae'n dweud 'Incwm arall'.

Dim incwm

Os nad oes gennych chi (a'ch partner) incwm, nodwch sut rydych yn cefnogi eich hun yn y blwch a ddarperir.

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU

Troschwch eich incwm misol yn bunnoedd sterling (GBP) gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid gyfredol. Bydd ein staff yn ystyried newidiadau bach yn y gyfradd gyfnewid rhwng yr adeg rydych yn llenwi'r cais a dyddiad ei asesu.



Peidiwch â chynnwys y budd-daliadau hyn yn eich incwm:

- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP)
- Lwfans Gweini
- Bonws Dychwelyd i'r Gwaith
- Lwfans Profedigaeth
- Blaendaliadau Cyllidebu a delir o dan y Credyd Cynhwysol
- Benthyciad Cyllidebu
- Lwfans Gofalwr
- Efen Gofalwr y Credyd Cynhwysol
- Efen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith
- Efen Gofal Plant y Credyd Cynhwysol
- Taliad Tywydd Oer
- Lwfans Gweini Cyson
- Taliadau uniongyrchol a wneir o dan Ofal Cymunedol, Gwasanaethau i Ofalwyr a Gwasanaethau Plant
- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- Elfennau Anabledd ac Anabledd Difrifol y Credyd Treth Plant
- Elfennau Plentyn ag Anabledd ac Anabledd Difrifol y Credyd Treth Gwaith
- Elfennau Plentyn ag Anabledd ac Anabledd Difrifol y Credyd Cynhwysol
- Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol
- Cymorth ariannol o dan gytundeb ar ofal maeth plentyn
- Taliad Angladd
- Budd-dal Tai
- Efen Credyd Tai'r Credyd Pensiwn
- Efen Tai'r Credyd Cynhwysol
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
- Taliadau Cronfa Byw'n Annibynnol

- Elfen Gallu Cyfyngedig i Weithio'r Credyd Cynhwysol
- Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)
- Unrhyw bensiwn a delir o dan Orchymyn Pensiwn Gwasanaeth y Lluoedd Morol, Milwrol ac Awyr etc (Anabledd a Marwolaeth) 2006
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Blaendaliadau Budd-dal Tymor Byr (STBAs)
- Blaendaliadau'r Credyd Cynhwysol
- Lwfans Rhiant Gweddw

Sut y mae'ch incwm yn effeithio ar eich gallu i gael help i dalu'ch ffi

Gallwch gael help i dalu ffioedd os nad oes gennych gynilion o gwbl, neu os yw swm eich cynilion yn fach (gweler tudalen 7) a bod eich incwm misol yn llai na'r swm yn nhabl 1.

Tabl 1	Sengl	Mewn cwpl
Incwm mwyaf	£1,085 ynghyd â £245 am bob plentyn sydd gennych	£1,245 ynghyd â £245 am bob plentyn sydd gennych
Er enghraifft:		
1 plentyn	£1,330	£1,490
2 blentyn	£1,575	£1,735

Os yw'ch incwm misol:

- **yn llai na'r swm yn nhabl 1** (a bod swm eich cynilion yn llai na'r swm ar dudalen 9 hefyd), yna ni fydd yn rhaid i chi dalu'ch ffi
- **yn fwy na'r swm yn nhabl 1**, gweler tabl 2 isod

Tabl 2	Sengl	Mewn cwpl
Incwm mwyaf	£5,085 ynghyd â £245 am bob plentyn sydd gennych	£5,245 ynghyd â £245 am bob plentyn sydd gennych
Er enghraifft		
1 plentyn	£5,330	£5,490
2 blentyn	£5,575	£5,735

Os yw'ch incwm misol:

- **yn llai na'r swm yn nhabl 2** (a bod swm eich cynilion yn llai na'r swm ar dudalen 9 hefyd), yna gallech fod yn gymwys i gael gostyngiad yn eich ffi. Gweler 'Talu rhan o'r ffi' isod

- **yn fwy na'r swm yn nhabl 2**, ni fyddwch yn gallu cael help i dalu'ch ffi

Talu rhan o'r ffi

Dilynwch y camau hyn i gael gwybod faint o ostyngiad y gallech ei gael yn eich ffi.

1. Dechreuwch â'ch incwm misol a thynnu'r swm yn nhabl 1 sy'n gymwys i'ch sefyllfa chi.
2. Talgrynnwch y ffigur i lawr i'r £10 agosaf. Er enghraifft, bydd £428 yn dod yn £420.
3. Rhannwch y swm hwn â 2 i gael y swm y byddai'n rhaid i chi ei dalu.

Peidiwch ag anfon y swm hwn gyda'ch cais. Bydd staff y llys yn prosesu eich cais am help i dalu ffioedd a byddant yn dweud wrthy'ch faont sydd arnoch angen ei dalu a sut i wneud hynny.

Darparu tystiolaeth o'ch incwm

Mae'n bosibl y byddwch yn cael llythyr oddi wrth y llys neu dribiwnlys yn gofyn am dystiolaeth o'ch incwm. Os byddwch yn cael llythyr o'r fath, bydd angen i chi anfon datganiadau banc yn ogystal â slipiau cyflog, llythyrau oddi wrth y Ganolfan Byd Gwaith neu ffurflenni treth. Bydd ein staff yn rhoi gwybod i chi beth yn union y mae angen iddynt ei weld.

Nid oes angen i chi anfon tystiolaeth o'ch incwm oni bai'ch bod yn cael llythyr yn gofyn am hynny.

Manylion cyswllt (cwestiwn 13)

Darparwch eich manylion cyswllt yma. Os ydych yn drydydd parti ac yn gwneud cais ar ran rhywun arall, rhowch eich manylion chi'ch hun, nid rhai'r ceisydd.

Llofnodi'r ffurflen (cwestiwn 14)

Rhaid i chi lofnodi a dyddio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd i gadarnhau eich bod yn credo bod gennych haw li gael help i dalu ffioedd a bod yr holl wybodaeth rydych wedi'i rhoi'n gywir. Os gwelir eich bod wedi rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anonest o fwriad, gellir dwyn achos troseddol yn eich erbyn am dwyll.

Gydag eithriadau cyfyngedig (gweler tudalen 4) chi yw'r unig un a gaiff lofnodi a dyddio'r datganiad a'r datganiad gwirionedd.

Hawliadau neu geisiadau gan nifer o bobl

Mewn rhai llysoedd a thribiwnlysoedd ceir achosion lle mae dau neu ragor o bobl wedi'u henwi ar yr un ffurflen hawlio. Yr enw ar hyn yw hawliad neu gais lluosog.

Pan geir hawliad neu gais lluosog, bydd pawb sy'n gysylltiedig yn gyfrifol am y ffioedd y mae angen eu talu. Dylai pob person wneud cais 'Help i dalu ffioedd' ar wahân.

Os bydd un o'r grŵp nad yw'n gymwys i gael help i dalu'r ffi, yna bydd yn rhaid i'r person hwnnw ei thalu.

Ni fydd neb yn gorfod talu mwy nag y byddai wedi gwneud pe byddai wedi gwneud cais ar ei ben ei hun.

Ble i anfon eich cais

Ffioedd llysoedd, tribiwnlysoedd a phrofiant

Os ydych yn gwneud cais am help i dalu ffioedd llysoedd, tribiwnlysoedd neu brofiant, mae'n rhaid i chi anfon eich ffurflen wedi'i llenwi ynghyd â'ch ffurflen Help i Dalu Ffioedd at y swyddfa llysoedd, tribiwnlysoedd neu brofiant sy'n delio â'ch achos neu'ch hawliad.

Mae modd gweld y manylion cyswllt yn: gov.uk/find-court-tribunal

Cais ar-lein

Os ydych chi wedi llenwi cais ar-lein byddwch yn cael cyfeirnod Help i dalu Ffioedd 'HWF-XXX-XXX'. Dylech nodi'r cyfeirnod Help i dalu Ffioedd hwn ar frig ffurflen eich hawliad neu'ch achos er mwyn i'r llys allu prosesu'ch cais ar-lein.

Os ydych yn gwneud cais ar-lein i'r llys, nodwch eich cyfeirnod Help i Dalu Ffioedd a rei system pan ofynnir ichi wneud hynny.

Os na fyddwch yn gwneud cais ar-lein am Help i dalu Ffioedd, ni fydd angen i chi roi cyfeirnod Help i dalu Ffioedd.

Os byddwch yn gwneud cais am ad-daliad, ewch i dudalen 7 am ragor o wybodaeth.

Beth fydd yn digwydd nesaf

Bydd ein staff yn ceisio prosesu'ch cais o fewn 5 niwrnod gwaith. Byddwch yn cael llythyr os bydd eich cais yn aflwyddiannus, neu os oes angen i chi ddarparu rhagor o wybodaeth. Er enghraifft, efallai y gofynnir i chi anfon tystiolaeth o'ch incwm.

Sut i apelio

Gallwch apelio os na fydd eich cais am help i dalu'ch ffi yn llwyddiannus a'ch bod yn anghytuno â'r penderfyniad.

Bydd angen i chi ysgrifennu at 'rheolwr cyflawni' y llys neu dribiwnlys erbyn y dyddiad sydd wedi'i nodi yn y llythyr gwrthod a gawsoch (a fydd fel arfer tua 14 diwrnod ar ôl y diwrnod y cawsoch chi'r llythyr). Dywedwch pam nad

ydych yn fodlon â'r penderfyniad a rhowch unrhyw dystiolaeth a fydd yn ategu'ch apêl.

Byddwch yn clywed oddi wrth y rheolwr cyflawni o fewn 10 niwrnod gwaith.

Os bydd y rheolwr cyflawni yn gwrthod eich apêl, bydd gennych hawl i gysylltu â 'rheolwr gweithrediadau' y llys neu dribiwnlys o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd eich apêl ei gwrthod. Bydd yn ystyried eich cais am apêl ac yn gwneud penderfyniad terfynol.

Os ydych yn debygol o brofi caledi eithriadol

Gallwch ofyn i reolwr cyflawni'r llys neu dribiwnlys i ystyried gostwng neu hepgor eich ffi os ydych yn credu na fyddwch yn gallu fforddio talu'ch ffi llys neu dribiwnlys, neu'n wynebu amgylchiadau eithriadol eraill. Mae hwn yn fesur diogelwch pwysig a allai fod yn berthnasol, er enghraifft, pan nad ydych yn gymwys dan y Cynllun Help i Dalu Ffioedd safonol, cymeradwywyd cais Help i Dalu Ffioedd yn rhannol yn unig, neu os yw eich ffi yn daladwy mewn achos ble nad yw'r cynllun Help i Dalu Ffioedd yn berthnasol ac nid ydych yn gymwys i gael dileu'r ffi dan reolau eraill

Yn gyffredinol, bydd y Rheolwr Cyflawni dim ond yn cymeradwyo eich cais os byddwch yn gallu dangos nad ydych yn gallu fforddio talu'ch ffi yn ymarferol, neu bod amgylchiadau eraill sy'n cyfiawnhau dileu'r ffi. Bydd amgylchiadau ceiswyr yn cael eu hystyried **fesul achos**.

Wrth ystyried p'un a ydynt am leihau neu hepgor eich ffi ai peidio, bydd angen manylion ar y rheolwr cyflawni am eich amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys pam nad ydych yn gallu fforddio eich ffi, neu pam bod amgylchiadau eraill sy'n cyfiawnhau dileu'r ffi. Mae'n rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth hon gyda'ch cais. Mae'r math o dystiolaeth y dylech ei darparu yn cynnwys (ble fo'n berthnasol): hysbysiadau sy'n bygwth achos cyfreithiol oherwydd bod biliau heb eu talu, manylion am eich incwm, cynilion, costau, neu unrhyw wybodaeth berthnasol arall i gefnogi'ch cais am ddileu ffi oherwydd caledi eithriadol. am ddileu ffi oherwydd caledi eithriadol.

Rhaid i'r holl dystiolaeth fod yn Saesneg neu gyda chyfieithiad Saesneg, a ble fo'r dystiolaeth am eich arian yn cael ei chyflwyno mewn arian nad

yw'n arian sterling yna rhaid cynnwys nodyn o werth yr arian hwnnw mewn punnoedd sterling hefyd. Rhaid i'r cyfieithiadau a'r gwerthoedd mewn punnoedd sterling ddod gan ffynhonnell gydnabyddedig (gall hyn gynnwys gwasanaethau cyfieithu/trosi arian ar-lein).

Ni fydd eich ffi yn cael ei lleihau neu ei hepgor yn awtomatig oherwydd eich statws, er enghraifft, os ydych yn ddi-waith, yn weithiwr tymhorol neu ran-amser, yn fyfyrwr neu'n garcharor. Bydd dal gofyn ichi ddarparu tystiolaeth ychwanegol i ategu'ch cais.

Wrth ystyried cais am ddileu ffi oherwydd caledi eithriadol, byddem yn disgwyl ichi ddangos eich bod wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i ystyried ffynonellau ariannu amgen. Er enghraifft os oes gennych noddwr yn eich cefnogi gyda mater sy'n ymwneud â mewnfudo, byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth yn dangos nad oedd y partïon hynny yn gallu eich helpu i dalu'ch ffi. At hynny, os oes gennych unrhyw fath o yswiriant costau cyfreithiol, byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth pam na fyddai modd defnyddio'r yswiriant hwnnw i dalu eich ffi.

Os nad yw'r rheolwr cyflawni yn cymeradwyo eich cais am ddileu ffi oherwydd caledi eithriadol, yna gallwch wneud apêl i'r rheolwr gweithredol yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Yna bydd y rheolwr gweithredol yn ystyried unrhyw dystiolaeth rydych wedi'u chyflwyno'n flaenorol ac unrhyw wybodaeth bellach byddwch yn ei chyflwyno gyda'ch apêl. Unwaith bydd y rheolwr gweithredol wedi gwneud ei benderfyniad terfynol, ni allwn ystyried y mater ymhellach.

Beth i'w wneud mewn argyfwng

Os bydd angen i chi gael penderfyniad yn gynt na 5 niwrnod gwaith,

gall rheolwr cyflawni'r llys neu dribiwnlys wneud penderfyniad ynghylch a fyddwch yn cael help i dalu'ch ffi.

Mae argyfyngau'n cynnwys achosion sy'n ymwneud â'r canlynol:

- atal camau i droi tenant allan
- deiseb ansolfedd gan ddyledwr
- plant neu oedolion agored i niwed
- trais domestig
- gwaharddebau
- darpariaethau 'y tu allan i oriau' yn y Llysoedd Barn Brenhinol

Cysylltiadau defnyddiol

Cyngor ar Bopeth

www.citizensadvice.org.uk

www.adviceguide.org.uk

neu chwiliwch yn y Tudalennau Melyn am y swyddfa leol

Cyngor Cyfreithiol Sifil

www.gov.uk/civil-legal-advice

Bwrdd Cymorth Cyfreithiol yr Alban

www.slac.org.uk

0131 226 7061

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

www.gov.uk/dwp

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service

Cyllid a Thollau EM

www.hmrc.gov.uk

Llinell Gymorth Credyd Treth

0345 300 3900

Canolfan Byd Gwaith

www.gov.uk/contact-jobcentre-plus

0345 604 3719

Y Gwasanaeth Pensiwn

www.gov.uk/contact-pension-service

0800 731 7898

Asiantaeth Pensiynau Cyhoeddus yr Alban

www.sppa.gov.uk

01896 893000

Os oes arnoch angen cael y daflen hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print bras, cysylltwch â'ch llys neu dribiwnlys lleol i gael cymorth.

Os oes gennych anabledd sy'n ei gwneud yn anodd i chi fynd i lys neu dribiwnlys neu gyfathrebu, cysylltwch â'r llys neu dribiwnlys a byddant yn gallu'ch helpu.

Mae manylion cyswllt ein holl lysoedd a thribiwnlysoedd ar gael ar-lein yn: gov.uk/find-court-tribunal